
# Ysgol Hafan y Môr

## Polisi Cwricwlwm



**Nod:**

Pwrpas y polisi hon yw i esbonio beth yw ffocws y cwricwlwm yn Ysgol Hafan y Môr. Mi fydd yr Ysgol yn cynllunio yn erbyn y 6 maes dysgu a phrofiad gyda'r 4 diben yn gyrru'r cwricwlwm gyda'r sgiliau allweddol yn i bob agwedd.

**Hawliau Plant:**

**Erthygl 3:** Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.

**Erthygl 6:** Mae gennych yr hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach.

**Erthygl 27:** Eich hawl i safon dda o fywyd.

**Erthygl 28:** Eich hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.

**Erthygl 29:** Eich hawl i fod y gorau y gallwch fod.

**Erthygl 30:** Eich hawl i ddefnyddio eich iaith eich hun.

**Erthygl 31:** Eich hawl i ymlacio a chwarae.

**Erthygl 37:** Eich hawl i gael eich trin yn deg

**4 Diben y cwricwlwm:**

Mae'r **4 prif nod** yn mynd i helpu plant a phobl ifanc i fod yn:

1. **Dysgwyr Uchelgeisiol a galluog**

   Mae hwn yn meddwl eu bod nhw'n credu ynddyn nhw eu hunain a beth maen nhw'n gallu ei wneud. Maen nhw eisiau dysgu a gwneud yn well. Mae ganddyn nhw'r sgiliau i ddysgu.

2. **Cyfranwyr mentrus, creadigol**

   Mae hwn yn meddwl eu bod nhw'n gallu bod yn greadigol a meddwl am syniadau newydd. Maen nhw'n gallu gweithio problemau allan. Maen nhw'n gallu defnyddio hyn yn eu gwaith.

3. **Dinasyddion egwyddorol a gwybodus**

   Mae hwn yn meddwl eu bod nhw'n deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae nhw'n cymryd rhan yn eu cymuned. Mae nhw'n edrych ar ôl y byd.

4. **Unigolion iach a hyderus**

   Mae hwn yn meddwl bod ganddyn nhw feddwl a chorff iach. Maen nhw'n teimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain a beth maen nhw'n credu.

**Egwyddorion cynllunio'r Cwricwlwm yn Ysgol Hafan y Môr**

Yn Ysgol Hafan Y Môr, mae ein Cwricwlwm;

- **Yn ddilys:** wedi'i wreiddio yng ngwerthoedd a diwylliant Cymru
- **Wedi ei seilio ar dystiolaeth**: yn gwneud defnydd o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt
- **Yn ymatebol**: yn berthnasol i anghenion heddiw
- **Yn gynhwysol:** yn hawdd i bawb ei ddeall gan gwmpasu hawl pob plentyn a pherson ifanc i gael addysg o ansawdd uchel
- **Yn uchelgeisiol:** yn ymgyffori disgwyliadau mawr heb osod terfynau artiffisial
- **Yn rymusol**: galluogi pobl ifanc i wynebu heriau'n hyderus
- **Yn unedig**: yn caniatau parhad a dilyniant (cam i gam)
- **Yn ddiddorol:** yn hybu mwynhad o ddysgu
- **Wedi seilio ar sybsidiaredd**: yn ennyn hyder ym mhawb gan gymell perchnogaeth briodol
- **Yn hawdd ei drin:** yn cydnabod goblygiadau o ran cael trefniadau asesu ac atebolrwydd priodol

**6 Maes Dysgu a Phrofiad**

Yn Ysgol Hafan y Môr, rydym yn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn amryfal brofiadau o fewn holl meysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm.

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

Yn Ysgol Hafan y Môr, bydd cyfle i blant a phobl ifanc archwilio'r celfyddydau a dysgu sut i fwynhau a meddwl am gelf pobl eraill. Fe ddylai pob disgybl gael cyfle hefyd i fod yn greadigol. Maen nhw'n gallu dysgu'r pethau yma drwy gymysgedd o wahanol wersi fel:

- Celf
- Dawns
- Ffilm
- Drama
- Cerddoriaeth
- Cyfryngau digidol (Golyga cyfryngau digidol unrhyw waith celf rydych chi'n ei greu drwy dechnoleg, er enghraifft, fideo, recordio sain a gwefannau).

Yn Ysgol Hafan y Môr, credwn yn gryf bod Celfyddydau Mynegiannol yn allweddol i ddatblygu plant fel unigolion chwilfrydig, mynegiannol a hyderus. Trwy gyfleoedd ymarferol, amrywiol ac ystyrlon, caiff disgyblion archwilio, myfyrio a chreu o fewn amgylchedd sy'n meithrin eu syniadau a'u doniau unigryw.

**Archwilio a Datblygu Sgiliau Celfyddydol**
Bydd disgyblion yn archwilio amrywiaeth o ffurfiau celf, gan gynnwys celf weledol, cerddoriaeth, drama a dawns.
*Er enghraifft*:

- Arsylwi gwaith artistiaid lleol mewn gweithdai ac ymweliadau ag orielau neu stiwdios, ac yna creu eu gwaith eu hunain mewn ymateb.
- Dysgu technegau cerddorol drwy ddefnyddio offerynnau syml ac aps digidol, gan adeiladu ar sgiliau fel rhythm ac alaw.
- Cyd-weithio ar brosiect dawns dosbarth yn seiliedig ar thema megis tymhorau neu emosiynau.

**Ymateb a Myfyrio**
Mae ymateb i gelf a pherfformiadau'n helpu disgyblion i werthfawrogi safbwyntiau eraill ac i ddatblygu eu barn artistig eu hunain. Gweithgareddau'n cynnwys:

- Trafod cerddoriaeth neu ddarn celf a mynegi barn mewn cylch trafod neu drwy ysgrifennu myfyriol.
- Gweithgareddau megis *"Beth sy'n gwneud perfformiad da?"* i feithrin sgiliau gwerthuso a dethol.

**Creu ac Ymgysylltu trwy Brofiad**
Bydd disgyblion yn datblygu eu creadigrwydd trwy gyfuno syniadau a sgiliau mewn gweithgareddau ymarferol megis:

- Perfformio mewn eisteddfodau ysgol ac yn y gymuned leol *(e.e. canu, actio neu ddawnsio).*

- Creu ffilm fer gan ddefnyddio tabledi/dyfeisiau digidol fel rhan o brosiect *'Cyflwyno'r Tywydd neu raglen Newyddion'*.
- Ysgrifennu a pherfformio drama fer sy'n mynegi stori gymunedol neu brofiad emosiynol.

**Datblygu Hyder a Meddwl Beirniadol**
Mae'r celfyddydau'n meithrin sgiliau mynegiant, dychymyg a chyfathrebu sydd yn hanfodol ar draws y cwricwlwm.
Bydd disgyblion yn:

- Myfyrio ar waith eu hunain a gwaith eraill, gan ddefnyddio geirfa benodol a chymdeithasol i fynegi syniadau'n gadarnhaol.

Trwy'r profiadau hyn, caiff dysgwyr eu hannog i fynegi'u hunain yn greadigol, i feddwl yn annibynnol ac i werthfawrogi'r celfyddydau fel rhan annatod o fywyd llawn a chytbwys, gan osod sylfaen ar gyfer llesiant a hunan-hyder sydd yn para'n hir.

Disgrifiad Dysgu: <u>Celfyddydau Mynegiannol</u>

**<u>Iechyd a Llesiant</u>**

Bydd Ysgol Hafan y Môr yn dysgu plant a phobl ifanc sut i edrych ar ôl eu hiechyd.
Golyga hyn:

- sicrhau bod ein corff yn iach.
- cadw ein meddwl yn iach.
- sicrhau perthnasoedd iach gyda phobl.
- y gallu i wneud penderfyniadau bywyd da.

Bydd y cwricwlwm hwn yn cynnwys gweithgareddau megis coginio, chwaraeon a gwersi am lesiant. Diffinir llesiant fel unrhyw beth i'w wneud gyda'ch iechyd a'ch hapusrwydd,megis, amseroedd cylch, hyrwyddo wythnosau iechyd meddwl cenedlaethol a gwasanaethau dosbarth er mwyn addysgu a hybu llesiant.

Yn Ysgol Hafan y Môr, ein nod yw datblygu dysgwyr sy'n deall eu hiechyd a'u lles ac sy'n meddu ar yr offer i ofalu amdanynt drwy gydol eu bywyd. Trwy gwricwlwm cytbwys, cyd-destunol ac ymarferol, caiff dysgwyr brofiadau sy'n meithrin lles corfforol, meddyliol ac emosiynol.

**Iechyd y Corff**
Trwy weithgareddau fel *coginio iach* a *sesiynau chwaraeon wythnosol*, caiff dysgwyr eu hannog i ddatblygu ymwybyddiaeth o faeth, symud corfforol a ffordd o fyw gytbwys. Er enghraifft, bydd disgyblion yn creu bwydlen iach ar gyfer picnic dosbarth gan ddefnyddio egwyddorion diet cytbwys.

**Lles Meddyliol ac Emosiynol**
Mae amseroedd cylch rheolaidd, y rhaglen *Jig-so*, a gwasanaethau ysgol gyfan dosbarth ar bynciau fel hunanwerth, ymwybyddiaeth ofalgar a hunanreolaeth yn darparu gofod diogel i ddisgyblion archwilio teimladau a phrofiadau. Bydd gweithgareddau megis *lluniadu "map lles personol"* neu

*ddyfalu sut i dawelu meddwl pryderus* yn helpu dysgwyr i brosesu emosiynau'n iach a datblygu gwydnwch.

**Gwneud Penderfyniadau a Dylanwadau Cymdeithasol**
Drwy drafodaethau dosbarth ar ddewisiadau llesol, *gêm rôl ar sefyllfaoedd cymdeithasol* neu *ganlyniadau penderfyniadau bob dydd*, mae disgyblion yn cael y cyfle i ystyried effaith eu dewisiadau ar eu bywyd a bywydau eraill. Trafodir pwysigrwydd dweud *"na",* dilyn greddf, ac adnabod dylanwadau cadarnhaol a negyddol yn eu bywyd.

**Cydberthnasau Iach**
Bydd gweithgareddau fel *"fy ffrind da yw…"*, *rhwydwaith cefnogaeth fy mywyd* a *gweithio mewn parau i ddatrys heriau cydweithio* yn meithrin sgiliau cyfathrebu, gwrando, empathi a datrys gwrthdaro mewn ffordd gadarnhaol. Byddwn hefyd yn cydweithio gydag ystod o asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion megis, *NSPCC, Hafan Cymru, Sandy Bear a Nyrs yr Ysgol*.

**Pontio a Pharatoi ar gyfer Ysgol Uwchradd**
Trwy ddiwrnodau ac wythnosau pontio gydag Ysgolion Uwchradd Bro Preseli a Chaer Elen yn ogystal ac ymyrraethau megis *Cylch Ffrindiau a Talkabout*, bydd disgyblion yn paratoi'n emosiynol ar gyfer newid, gan drafod pryderon, edrych ymlaen a datblygu hyder.

Drwy wreiddio'r holl weithgareddau hyn mewn ymwybyddiaeth ofalgar, cyd-destun bywyd go iawn a safbwynt cadarnhaol, rydym yn sicrhau bod dysgwyr Ysgol Hafan y Môr yn tyfu i fyny yn bositif, yn wybodus ac yn barod i ofalu amdanynt eu hunain ac eraill, yn ystod eu hamser yn yr ysgol ac yn y byd tu hwnt.

Disgrifiad Dysgu: <u>Iechyd a Lles</u>

**<u>Y Dyniaethau</u>**

Bydd Ysgol Hafan y Môr yn dysgu plant a phobl ifanc i feddwl am y byd er mwyn eu helpu i'w ddeall yn well.

Gall hyn fod drwy bynciau fel:

- Hanes
- Daearyddiaeth
- Crefyddau, gwerthoedd a moeseg
- Busnes
- Astudiaethau Cymdeithasol

Yn Ysgol Hafan y Môr, rydym yn cydnabod bod Maes y Dyniaethau yn cynnig llwyfan unigryw i ddysgwyr archwilio syniadau mawr, materion dynol, ac amgylchiadau hanesyddol, daearyddol a moesegol. Mae'r maes hwn yn eu cefnogi i ddysgu am le a phobl, amser a newidiadau, perthnasoedd a chyfrifoldebau—drwy brofiadau ystyrlon a chyd-destunol.

**Hanes**
Rydym yn annog disgyblion i archwilio hanes eu cymuned leol a'r byd drwy lygaid pobl a digwyddiadau o'r gorffennol.
Byddant yn:

- Astudio hanes y dref neu'r ardal leol *(e.e. ymweliad â siambrau'r dre neu'r hen gapel, yna ysgrifennu dyddiadur 'dychmygol' fel plentyn yn byw yno ganrifoedd yn ôl).*
- Cynnal cyfweliadau â theulu neu gymdogion hŷn i greu llinellau amser teuluol.
- Trafod sut y gall digwyddiadau fel Rhyfeloedd Byd siapio cymdeithas heddiw.

**Daearyddiaeth**
Trwy astudio gofod, lle a pherthnasoedd rhwng pobl ac amgylchedd, mae disgyblion yn:

- Arsylwi'r tywydd bob dydd a chynhyrchu graffiau tymheredd, yna eu cymharu â Lesotho neu'r Wladfa.
- Darlunio mapiau syml o'r ardal leol, gan nodi lleoedd o bwys cymdeithasol neu hanesyddol.
- Cynnal prosiect ymchwil ar gynaliadwyedd yn yr ysgol *(e.e. faint o blastig y defnyddir mewn wythnos a sut i'w leihau).*

**Crefyddau, Gwerthoedd a Moeseg**
Trwy archwilio systemau cred, arferion a gwerthoedd, rydym yn cefnogi disgyblion i:

- Ddarllen a thrafod straeon crefyddol o wahanol draddodiadau ac ysgrifennu myfyrdod personol ar eu neges foesegol *(e.e. maddau neu ofalu).*
- Arwain dosbarthiadau mewn cylchoedd trafod ar degwch, cyfiawnder neu helpu erail, gan greu cod ymddygiad ar gyfer yr ysgol.

**Busnes ac Entrepreneuriaeth**
Rydym yn meithrin arweinwyr ifanc mentrus drwy brofiadau go iawn fel:

- Yn ystod tymor yr haf, bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn menter fusnes fechan o'r enw *Menter Cychod Coch*. Byddant yn datblygu syniad ar gyfer stondin yn y ffair haf, yn cyflwyno cais am fenthyciad cychwynnol, ac yn sefydlu'r fenter drwy greu posteri, rheoli'r gyllideb, a gwerthu eu cynnyrch. Ar ddiwedd y broses, byddant yn ad-dalu'r benthyciad ac yn defnyddio'r elw ar gyfer taith ddiwedd y tymor.
- Bydd disgyblion yn archwilio sut mae busnesau lleol yn gweithio drwy ymweliadau â bwytai neu siopau, lle byddant yn trafod cynnyrch, incwm, elw a cholledion. Bydd ymwelwyr yn dod i'r ysgol i ateb cwestiynau gan y disgyblion.

**Astudiaethau Cymdeithasol**
Trwy archwilio cymdeithas, gwleidyddiaeth a dinesyddiaeth foesegol, caiff disgyblion:

- Drafod hawliau plant a chreu eu 'Datganiad Hawliau Dosbarth'.
- Ysgrifennu apêl ffurfiol ar bwnc lleol (e.e. angen ardal chwarae, gwella'r parc neu fwy o fannau gwyrdd).
- Chwarae-rôl cyfarfod cyngor tref neu ddadl seneddol ac ysgrifennu adroddiad ar ganlyniadau.

Trwy gydol y Dyniaethau, mae disgyblion yn meithrin sgiliau craidd fel meddwl beirniadol, dehongli gwybodaeth, empathi a chreadigrwydd. Mae'r gwaith yn berthnasol, yn ymarferol, ac yn

adlewyrchu realiti bywyd, gan helpu dysgwyr i ddod yn ddinasyddion cyfrifol a chwilfrydig, barod i gyfrannu'n gadarnhaol i'w cymuned leol a'r byd ehangach.

Disgrifiad Dysgu: Dyniaethau

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Bydd Ysgol Hafan y Môr yn dysgu plant a phobl ifanc i ddeall a defnyddio gwahanol ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, Saesneg ac yn amserol, ieithoedd modern eraill. Rydym yn cymryd pob cyfle i addysgu amryfal ieithoedd gan fanteiso ar gyfleoedd ac ar brofiadau ieithyddol unigryw ein disgyblion a'u teuluoedd.

Ysgol dynodedig Gymraeg yw Ysgol Hafan y Môr felly wrth wraidd gweledigaeth yr ysgol mae'r iaith Gymraeg. Rydym yn ei hyrwyddo yn mhob elfen o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion Ysgol Hafan y Môr yn gadael yr ysgol yn ddisgyblion dwyieithog hyderus.

Pan yn cyfeirio at Lythrennedd rydym yn ystyried medrau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu y disgyblion; medrau sydd yn eu galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas ni.

Bydd Ysgol Hafan y Môr hefyd yn helpu ein disgyblion i ddeall a gwerthfawrogi llenyddiaeth a chreu eu llenyddiaeth eu hunain. Wrth ystyried llenyddiaeth, rhown gyfle i'r disgyblion brofi a mwynhau llyfrau, cerddi a ffilmiau.

Mae maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn sylfaenol i holl ddatblygiad deallusol, personol a chymdeithasol dysgwyr. Mae datblygu'r gallu i fynegi syniadau yn glir, i ddeall a dehongli gwybodaeth, ac i ymgysylltu â phobl eraill yn grynhoad o lawer o sgiliau rhyng-gysylltiedig: llafar, gwrando, darllen, ysgrifennu ac iaith ychwanegol. Trwy weithgareddau trawsgwricwlaidd dilys, caiff dysgwyr gyfleoedd i ddefnyddio iaith mewn sefyllfaoedd amrywiol a chyfoethog.

**Llafar a Gwrando**
Mae cyfleoedd trafod, rhesymu ac egluro yn cefnogi datblygiad iaith lafar fanwl. Gweithgareddau fel *"Her Ddadansoddi Problem"*, lle mae grwpiau'n trafod sefyllfa gymhleth ac yn cyflwyno eu hateb yn glir, yn meithrin sgiliau siarad pwrpasol. Trwy *"Siaradwr y Diwrnod"*, mae disgyblion yn ennill hyder wrth gyflwyno gwybodaeth o flaen eraill, gan ddefnyddio iaith briodol a pherthnasol. Mae gwrando gweithredol yn cael ei hybu trwy drafodaethau strwythuredig, yn ogystal ag ymateb i syniadau cyd-ddisgyblion.

**Darllen**
Caiff dysgwyr eu cyflwyno i amrywiaeth o destunau gan gynnwys ffeithiol a ffuglen. Gweithgareddau fel *"Teithiau Darllen Gyd-destunol"*, lle darllenir arwyddion, taflenni neu fapiau ar ymweliadau neu o fewn yr ysgol, yn annog dysgwyr i drosglwyddo sgiliau darllen i sefyllfaoedd bywyd go iawn. Yn ogystal, mae gweithgaredd *"Darllen Grŵp"*—lle mae disgyblion yn darllen tystiolaeth ysgrifenedig gyda'i gilydd cyn trafod ac ateb cwestiynau ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i gydweithio, cyd-ddarllen ac ymarfer uwch sgiliau darllen dan arweiniad oedolyn; o ganlyniad, mae hyn yn atgyfnerthu hyder a chynnydd yn sgiliau darllen disgyblion.

**Ysgrifennu**
Mae sgiliau ysgrifennu yn cael eu datblygu trwy dasgau â phwrpas go iawn. Er enghraifft, wrth ysgrifennu *adroddiad papur newydd* ar sail storm leol a gafodd effaith uniongyrchol ar ddisgyblion neu'r gymuned, megis llifogydd ger yr ysgol, diffyg pŵer neu gau ffyrdd, mae dysgwyr yn datblygu'r gallu i adrodd gwybodaeth yn wrthrychol, defnyddio amseroedd lluosog, a chyflwyno ffeithiau mewn trefn rhesymegol. Trwy drafod y digwyddiad, cynnal cyfweliadau efelychiadol a chreu teitlau trawiadol, caiff disgyblion gyfle i ddefnyddio iaith fanwl, gyfresu syniadau ac ymgorffori geirfa newydd mewn testun ffurfiol. Yn yr un modd, wrth ysgrifennu *llythyr cyfeillgar* at blant mewn ysgol yn Lesotho neu'r Wladfa ym Mhatagonia, caiff dysgwyr eu hannog i ystyried gwahaniaethau a thebygrwydd diwylliannol, daearyddol ac ieithyddol. Maent yn cyflwyno eu hunain, yn disgrifio bywyd ysgol, tywydd, hobïau a thraddodiadau lleol megis Calan Gaeaf neu Eisteddfod yr ysgol, gan ofyn cwestiynau i ddysgu am fywyd plant mewn cyd-destun byd-eang.
Wrth ysgrifennu at blant yn Lesotho, gallai disgyblion drafod sut mae byw mewn gwlad heb fawr ddim glaw yn wahanol i Gymru, gan gynnwys cwestiynau am gwisgoedd traddodiadol, bwyd neu'r defnydd o afael cartref. Gyda'r Wladfa, gallent annog sgyrsiau am ddefnyddio'r Gymraeg dramor, a sut mae traddodiadau Cymreig yn cael eu cadw'n fyw mewn cymuned sy'n byw mor bell, ond sydd â gwreiddiau tebyg.

Disgrifiadau Dysgu: <u>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu</u>

## <u>Mathemateg a Rhifedd</u>

Bydd Ysgol Hafan y Môr yn dysgu plant a phobl ifanc i ddeall a defnyddio rhifau. Mae defnyddio rhifau mewn bywyd bob dydd yn cael ei alw yn rhifedd. Fe fydd dysgu am fathemateg a rhifedd yn golygu:

- deall sut mae rhifau'n gweithio.
- deall sut mae symbolau'n gallu cael eu defnyddio a beth maen nhw'n feddwl. Symbol ydy arwydd sydd yn gallu dweud wrthych chi beth i'w wneud. Er enghraifft, mae'r arwydd plws yn meddwl eich bod yn adio dau rif gyda'i gilydd. Fel 2 + 2. Weithau mae symbolau hefyd yn cael eu defnyddio yn lle rhifau, er enghraifft a – b.
- deall sut i fesur pethau a gweithio gyda gwahanol siapiau.
- deall sut i gasglu gwybodaeth gan ddefnyddio'r wybodaeth yma i wneud penderfyniadau.

Mae datblygiad mathemateg wedi mynd law yn llaw â datblygiad gwareiddiad ers y cychwyn cyntaf. Mae'n ddisgyblaeth wirioneddol ryngwladol, ac mae o'n cwmpas ni i gyd ac yn sail i gynifer o agweddau ar ein bywydau bob dydd, megis pensaernïaeth, celfyddyd, cerddoriaeth, arian a pheirianneg. Er bod mathemateg ynddi hi ei hun, ac wrth gael ei chymhwyso, yn greadigol ac yn hardd, mae hefyd yn hanfodol ar gyfer cynnydd mewn meysydd dysgu a phrofiad eraill.

Yn ychwanegol at hyn, mae rhifedd, sef defnyddio mathemateg i ddatrys problemau yn y byd go iawn, yn chwarae rhan allweddol yn ein bywydau bob-dydd, ac yng nghyrwr economaidd y genedl. Mae'n hanfodol felly fod profiadau mathemateg a rhifedd mor gyffrous, diddorol a hygyrch â phosibl

i ddysgwyr, a bod y profiadau hyn yn fodd i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu gwydnwch mathemategol.

Mae’r hyn sy’n bwysig yn y Maes hwn wedi’i fynegi mewn pedwar datganiad sy’n cefnogi a chadarnhau ei gilydd, ac ni ddylid eu hystyried fel datganiadau ar wahân. Gyda’i gilydd maen nhw’n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

**Datganiadau o’r hyn sy’n bwysig:**

- Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.
- Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.
- Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.
- Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae’r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

Mae cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd yn cynnwys datblygu pum hyfedredd cysylltiedig a rhyngddibynnol. Dydyn nhw ddim yn nhrefn pwysigrwydd, ac mae ystyried yr hyfedreddau hyn yn hollbwysig wrth i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm er mwyn sicrhau cynnydd dysgwyr.

**1. Dealltwriaeth Gysyniadol**

Mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth ddofn o gysyniadau mathemategol drwy weithgareddau archwiliol.
*Enghraifft*: Archwilio patrymau niferol trwy adeiladu gyda blociau, neu chwilio am luosrifoedd trwy symud o un man i’r llall ar lawr grid.

**2. Cyfathrebu gan Ddefnyddio Symbolau**

Caiff disgyblion eu hannog i ddefnyddio symbolau mathemategol yn gywir i fynegi syniadau. *Enghraifft*: Ysgrifennu hafaliadau syml i gynrychioli problemau geiriol, neu ddefnyddio diagramau a graffiau i gyflwyno data mewn prosiect gwyddonol.

**3. Cymhwysedd Strategol**

Trwy broblemau go-iawn, mae dysgwyr yn datblygu’r gallu i ddewis dull strategol i ddatrys. *Enghraifft*: Gêm ‘siop’ lle mae disgyblion yn dewis pa arian i’w ddefnyddio i dalu’n gywir, gan ystyried y newid a’r opsiynau gorau.

**4. Rhesymu Rhesymegol**

Mae trafod, dadlau a chyfiawnhau dewisiadau mathemategol yn helpu disgyblion i ffurfio eu meddylfryd rhesymegol.
*Enghraifft*: Trafod mewn grŵp pam bod un ateb yn gwneud mwy o synnwyr na’r llall mewn tebygolrwydd syml, neu egluro pam bod patrymau’n parhau mewn ffordd benodol.

**5. Rhuglder**

Datblygir hyder, cyflymder ac awtomeiddio sgiliau craidd megis rhannu, lluosi, adio a thynnu. *Enghraifft*: Heriau amser cyfyngedig i gwblhau tablau lluosi, neu chwarae gemau taflu a dal lle mae’n rhaid dweud ffeithiau rhif ar unwaith.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau mathemateg pen yn ddyddiol yn ogystal ag amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau rhesymu / datrys problemau trwy gydol y flwyddyn.

Mae camau dilyniant yn gysylltiedig â datblygiad mathemategol dysgwr unigol. O fewn unrhyw ddosbarth, ar unrhyw bwynt, mae’n debygol y bydd ystod o gamau cynnydd. Mae athrawon yn addasu eu gwahaniaethu i gwrdd ag anghenion unigol pob disgybl. Drwy gyfuno’r hyfedreddau hyn mewn ffordd gydlynol, rydym yn sicrhau bod cynnydd dysgwyr yn gadarn, ystyrlon ac yn arwain at gymhwysedd mathemategol sy’n berthnasol i’r byd o’u cwmpas.

Disgrifiadau Dysgu: Disgrifiadau Dysgu Mathemateg a Rhifedd

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Yn Ysgol Hafan y Môr, bydd cyfle i ddisgylion archwilio Gwyddoniaeth a Thechnoleg a dysgu sut mae’r byd naturiol a’r byd a grëwyd gan ddyn yn gweithio ac yn newid. Dylai pob disgybl gael cyfle hefyd i ofyn cwestiynau, arbrofi a chreu datrysiadau i broblemau go iawn.
Byddant yn dysgu’r sgiliau hyn trwy gymysgedd ymarferol o wahanol wersi megis:

- Gwyddoniaeth
- Dylunio a Thechnoleg
- Technoleg Ddigidol
- Datrys problemau a pheirianneg
- Arloesi a modelu syniadau gan ddefnyddio technoleg

**Chwilfrydedd a Chwilio am Atebion**

Mae chwilfrydedd yn rhan hanfodol o ddysgu yn Ysgol Hafan y Môr. Rydym yn annog pob disgybl i ofyn cwestiynau am y byd o’u hamgylch ac i ddefnyddio rhesymeg, tystiolaeth a chreadigrwydd wrth ymchwilio. Trwy arsylwi, profi syniadau a datblygu modelau defnyddiol, mae disgyblion yn dysgu sut mae’r byd yn gweithio ac yn dod yn athrawon eu hunain. Er enghraifft, bydd disgyblion yn cynnal arbrawf ble maent yn archwilio sut mae golau yn teithio drwy wahanol ddeunyddiau. Byddant yn cymharu deunyddiau tryloyw, tryloyw rhannol ac afloyw, gan ddefnyddio torchau i weld effeithiau golau ar wrthrychau.

**Gwneud Penderfyniadau Gwybodus**

Mae disgyblion yn datblygu'r sgiliau i werthuso honiadau gwyddonol a gwneud penderfyniadau sy’n effeithio ar eu lles a’r amgylchedd. Rydym yn pwysleisio pwysigrwydd ymchwil seiliedig ar dystiolaeth, gan sicrhau bod disgyblion yn deall sut mae gwyddoniaeth yn helpu i lunio'r byd o’u cwmpas. Un enghraifft o weithgaredd bydd, trafodaeth dosbarth ar newid yn yr hinsawdd, lle mae disgyblion yn ymchwilio i effaith eu dewisiadau bob dydd (e.e., ailgylchu, defnydd o drydan). Byddant yn creu poster yn amlygu camau y gall pawb eu cymryd i wneud penderfyniadau cynaliadwy.

**Meddylfryd Dylunio a Pheirianneg**

Yn Ysgol Hafan y Môr, rydym yn meithrin creadigrwydd a dull datrys problemau ymarferol drwy brosesau dylunio. Caiff disgyblion gyfleoedd i greu syniadau, lliniaru risgiau, a datblygu cynhyrchion a systemau effeithiol sy'n diwallu anghenion y gymuned.

**Dysgu o Fyd Natur**

Mae'r byd yn llawn pethau byw sy'n gweithredu gyda'i gilydd i greu cydbwysedd. Trwy archwilio sut mae'r amgylchedd yn effeithio ar organebau, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o'u rhan nhw yn y system naturiol a'r effaith y gall eu penderfyniadau a'u gweithredoedd ei chael ar fywyd. Er enghraifft, bydd disgyblion yn mynd ar daith i'r goedwig neu'r traeth i archwilio cynefinoedd naturiol. Bydd disgyblion yn cofnodi'r organebau maen nhw'n eu gweld ac yn ymchwilio sut maent yn rhyngweithio â'u hamgylchedd. Byddwn yn defnyddio cwmnioedd allanol i'n cefnogi megis Darwin Science a Chyfoeth Naturiol.

**Deall Mater, Grymoedd ac Egni**

Rydym yn helpu disgyblion i sylweddoli sut mae mater a grymoedd yn siapio'r bydysawd ac yn eu galluogi i ragfynegi a rheoli digwyddiadau o ddydd i ddydd. Mae dealltwriaeth o gemeg ac egni yn cynnig cyfleoedd i greu datrysiadau cynaliadwy a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau naturiol.

**Cyfrifiaduraeth a'r Byd Digidol**

Mae technoleg yn rhan o fywyd beunyddiol disgyblion yn Ysgol Hafan y Môr, ac rydym yn eu cefnogi i ddeall sut mae cyfrifiadura yn helpu i ddatrys problemau a llywio'r byd modern. Rydym hefyd yn pwysleisio ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau moesol a chymdeithasol sy'n dod gyda defnyddio technoleg. Er enghraifft, bydd disgyblion yn creu cod sylfaenol gan ddefnyddio blociau rhaglenni mewn meddalwedd fel Scratch i wneud cymeriad symud ar y sgrin yn ymateb i gyfarwyddiadau.

Disgrifiadau Dysgu: Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Themâu Trawsgwricwlaidd neu Sgiliau ar gyfer y cwricwlwm cyfan:**

Yn Ysgol Hafan y Môr, bydd yr athrawon yn cynllunio er mwyn sicrhau bod pob pwnc yn datblygu'r sgiliau traws-gwricwlaidd isod:

- Sgiliau llythrennedd – gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu.
- Sgiliau rhifedd – deall a defnyddio rhifau.
- Sgiliau digidol – gallu dysgu a deall technoleg. Golyga hyn y gallu i ddefnyddio dyfeisiadau digidol fel cyfrifiaduron, ipads a Chromebooks

**Sgiliau ehangach i'w hystyried wrth gynllunio:**

- **Meddwl yn feirniadol a datrys problemau** - mabwysiadu prosesau rhesymegol a beirniadol i ddadansoddi a deall sefyllfaoedd

- **Cynllunio a Threfnu** - sicrhau atebion a gweithredu syniadau

- **Creadigrwydd ac Arloesedd** - archwilio syniadau a mynegi barn

- **Effeithiolrwydd Personol** - ymddwyn mewn modd effeithiol a phriodol

**Sut bydd modd cyflawni'r uchod?**

Bydd yr athrawon yn cyd-cynllunio'n ofalus o fewn themâu agored yr ysgol gyda phwyslais ar brofiadau adeiladol a chynnydd disgyblion. Mae hwn yn galluogi'r ysgol i gyrraedd cydbwysedd o ran y chwe maes dysgu a phrofiad gan sicrhau bod disgyblion yn derbyn profiadau gwerthfawr o fewn a thu allan i'r dosbarth.

Yn ysgol Hafan Y Môr, rhoddir pwyslais ar ddatblygu a chyfoethogi medrau Llythrennedd, Rhifedd a Digidol y disgyblion er mwyn iddynt gymhwyso y medrau yn hyderus yn draws-gwricwlaidd yn y chwe maes dysgu a phrofiad.

Bydd disgwyl i Iechyd a llesiant ymddangos yn glir yn y cynllunio ac wrth ystyried Dyniaethau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Chelfyddydau Mynegiannol bydd hi'n bosib i ddewis thema gyda thuedd tuag at faes dysgu a phrofiad arbennig *e.e. Dyniaethau gan astudio'r ardal leol, Gwyddoniaeth a Thechnoleg gan ystyried dyfeisiadau ayyb.* Bydd llais y disgybl yn allweddol yn y broses gynllunio.

**Llais y Disgybl:**

Wrth gynllunio themâu trawsgwricwlaidd neu dasgau cyfoethog, bydd mewnbwn y disgyblion wrth wraidd y cynllunio a'r addysgu a dysgu. O ganlyniad, ein gobaith yn ysgol Hafan Y Môr yw y bydd y disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'r gweithgareddau a'u dysgu eu hunain. Defnyddir sesiynau ar ddechrau bob tymor ar draws yr ysgol er mwyn cywain syniadau y disgyblion ar gyfer y themau. Yn gyson gydol y thema, mae'r athrawon yn ymateb i chwilfrydedd a chwestiynau y disgyblion wrth lywio'r gweithgareddau, *er enghraifft wrth astudio'r Ewrop gall y disgyblion nodi diddordeb yn*

*nigwyddiadau cyfoes megis Wcrain a ceiswyr lloches*.

**Addysgeg:**

Wrth wraidd addysgeg yr ysgol mae'r 12 egwyddor Addysgu.
*Gweler y Polisi Addysgu a Dysgu am fwy o wybodaeth.*

## Egwyddorion Addysgegol

| | | |
|---|---|---|
| 1. Dibenion/pwrpas cyffredinol y cwricwlwm | 2. Ymdrechu'n barhaus | 3. Cymysgedd o ddulliau |
| 4. Datrys problemau, creadigol a beiriadol | 5. Datblygu ar wybodaeth flaenorol ac ennyn diddordebau | 6. Cyd-destunau dilys |
| 7. Asesu ar gyfer dysgu | 8. Cysylltiadau oddi mewn ac ar draws MDaPh | 9. Cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd |
| 10. Cymell i gymryd cyfrifoldeb | 11. Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 12. Hybu cydweithio |

**Cadw'r Polisi yn Gyfoes:**

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn flynyddol.